# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefin 2015

am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Rowland Jones, Dewi Rattray, Caredig Jones, Ada Evans; Richard Davies. Meirion Davies, Meic Francis, Dylan Edwards a John Davies.**

**YMDDIHEURIADAU:** Nid oedd unrhyw Ymddiheuriadau

**ABSENOLDEBAU:** Nid oedd unrhyw Absenoldebau.

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ann Tudor. Rhoddwyd croeso cynnes iawn i'r cyn Clerc, Mrs Eirys Davies. Diolchodd y Cyng. Ann Tudor iddi ar ran holl aelodau'r cyngor am ei waith trylwyr fel Clerc i'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf a dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

**15/850**

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod Miss Mai gan y Clerc a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Roland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.John Davies.

**15/851**

**MATERION YN CODI**

1. Fe ddiolchodd y Cyng.Ann Tudor i bawb yn y gymuned am eu help a gwaith called wrth dorri'r fynwent. Fe gytunodd pawb fod yn edrych yn arbennig. Awgrymwyd fod nodyn o ddiolch yn cael eu rhoi yn y Ddolen. Fe waeth y Cyng.Roland Jones hefyd sylwadu am safon uchel waith Dan Owen. Roddodd ddiolch gan y Cyng.Dewi Rattray I'r Cyng. Ann Tudor am drefnu'r noson a'r lluniaeth.
2. Mae dyddiad newydd ar gyfer hyfforddiant ar y Defibrillators; Nos Fercher 1af Gorffennaf am 7.15y.h. Mi fydd grŵp o 15/16 yn ddelfrydol. Cyn belled, mae yna 10 enw wedi cadarnhau am yr hyfforddiant. Fe wnaeth Mr Glan Davies rhoi gwybod fod 5 aelod o gymuned Llanfihangel am ymuno yn y noson. Penderfynwyd cadarnhau fod pawb ar y rhestr ar gael i mynychu ar y 1af, ac os ydynt, ni fydd angen hysbysu'r noson mwyach.
3. Fe wnaeth y Cadeirydd holi os oedd dyddiad wedi eu penodi eto ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Sir. Nid oes unrhyw ddyddiad wedi gosod eto.
4. Gadarnhaodd y clerc bod Mr Neville Jones wedi edrych dros yr Yswiriant flwyddyn yma a bod popeth mewn trefn. Mae'r taliad wedi eu hanfon.
5. Fe ysgrifennwyd at y swyddfa post ynglyn a Bylchiau Post y pentref. Yn siomedig, nid oes ymateb wedi derbyn eto.

**15/852**

**LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Dan Owens yn cadarnhau bydd yn gwneud y toriad 1af ar laswellt y fynwent yn Fis Mai. Wnaeth hyn eisoes cymerid lle cyn noson 'Torri fynwent y Gymuned'.
2. Poster 'Have Your Say' yn hysbysebi noson trafodaeth agored ar y 10fed Mehefin yn Aberaeron. Poster i'w arddangos ar hysbysfwrdd y neuadd.
3. Derbyniwyd gwaith papur cadarnhad Yswiriant y Cyngor Cymuned.
4. Fe wnaeth y Cyng.Meic Francis son yn am gynnwys nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis….Ymgysylltu a'r cyhoedd, 'Local Government Finance Training' 'Protecting community assets' 'Natural Resource Manager Training' a.y.y.b.

5. E-bost o Un Llais Cymru ynglŷn â Chofrestru Buddiannau Aelodau'r Cyngor e.e. Aelodau sefydliadau / grwpiau eraill, Perchennog ar dir o fewn ardal y Cyngor etc.
6. Llyfryn wybodaeth oddiwrth Tai Canolbarth Cymru ynglŷn â chynllun Rhanberchenogaeth gyda Budd Rhwyd Ddiogelwch.
7. Llythyr o ddiolch oddiwrth Clwb Pêl Droed Llanilar, am y rhodd o £300 a dderbyniodd oddiwrth Cyngor Cymuned Llanilar. Ei bwriad yw i neilltuo'r arian tuag at brojectau chwaraewyr ieuenctid o fewn y clwb.

**15/853**
**ARIANNOL**

1. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Drysorydd Canolfan Gymunedol Llanilar yn gofyn am gymorth i dalu yswiriant yr Hen Ysgoldy. Premiwm eleni fydd £1489.10. Cynigwyd yw talu gan y Cyng.Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones. Fe wnaeth y Cyng.Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni wnaeth gymerid rhan yn y drafodaeth.
2. PAYE ar gyfer Miss Ebrill o £27.00, Miss Mai £28.20 a Miss Mehefin £28.40. Mae'r cyfanswm o £83.60 am y tair Miss yma yn ddyladwy cyn y 5ed Gorffennaf. Cynigiwyd i'w thalu gan y Cyng.Meic Francis ac eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.
3. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Mai. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac eiliwyd gan y Cyng.John Davies.
4. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Mehefin. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Richard Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray.

**15/854**
**CYNLLUNIO**

1. Cais A150084 - Brynadail, Llanilar, Aberystwyth.
   Y Bwriad: Erection of a single storey Kitchen Utility area.

   Derbyniwyd manylion am y cais yma ar ôl y cyfarfod ym mis Mai, ond gofynnwyd fod unrhyw sylwadau am y cais yn cael eu derbyn cyn y 21 o Fai. Cysylltwyd y Clerc a'r Cynghorwyr canlynol i ofyn am safbwyntiau ar y cais; Cadeirydd Ann Tudor, Cyng.Dylan Edwards, Cyng.Caredig Jones, Cyng.Meic Francis, Cyng.John Davies, Cyng Ada Evans. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau. Fe anfonwyd llythyr yn hysbysu hyn i Gyngor Sir Ceredigion. Fe waeth aelodau'r pwyllgor edrych dros y cynlluniau yn ystod y cyfarfod ac roedd pawb yn gytûn a'r penderfyniad.

   Gwnaeth y Cyng.Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni wnaeth gymeryd rhan yn y drafodaeth.

**15/855**
**UNRHYW FATER ARALL**

1. Cafodd ei ddwyn i sylw'r pwyllgor gan y Cyng.Dylan Edwards, fod y polion a'r ffens ar hyd y llwybr beicio dal mewn cyflwr ofnadwy. Pasiwyd i'r Clerc ysgrifennu unwaith eto at yr Adran Priffyrdd i ddod a hyn at ei sylw .
2. Tynnwyd sylw gan y Cyng.John Davies am ba mor beryglus mae'r Gyffordd yn Llanfarian. Mae'r arwydd 'Tŷ Ar Werth' sydd wedi cael ei godi wrth ymyl Tŷ ar y groesffordd yn rhwystro gyrwyr weld y traffig wrth adael y gyffordd. Phasiwyd i'r Clerc cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd ynglŷn â hyn.
3. Awgrymwyd dyddiad ar gyfer yr ail doriad 'Cymunedol' y fynwent; 14 o Orffennaf.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.40yh